Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Seinio'r Larwm: Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub

Mehefin 2024




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCydraddoldeb**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# **Seinio'r Larwm:** Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub

Mehefin 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**Jane Dodds AS**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Joel James AS ***
Ceidwadwyr Cymreig



**Julie Morgan AS ***
Llafur Cymru



**Carolyn Thomas AS ***
Llafur Cymru



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

* Roedd Joel James yn bresennol fel dirprwy ar gyfer Altaf Hussain yn ystod cyfarfodydd yn ymwneud â'r Gwasanaethau Tân ac Achub ar y dyddiadau canlynol: 4 Mawrth, 18 Mawrth, a 22 Ebrill.

* Roedd Julie Morgan yn bresennol fel dirprwy ar gyfer Sarah Murphy ar 22 Ebrill.

* Roedd Carolyn Thomas yn bresennol fel dirprwy ar gyfer Sarah Murphy ar 18 Mawrth.

---

## Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Altaf Hussain AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Sarah Murphy AS**
Llafur Cymru



**Ken Skates AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ....... 5**

Rôl y Pwyllgor ....... 6

**2. Diwylliant y Gwasanaeth Tân ac Achub ....... 8**

Comisiynwyr Tân De Cymru ....... 8

Penodi'r Prif Swyddog Tân Interim ....... 10

Y broses benodi ....... 12

Pryderon ynghylch ymddygiad blaenorol ....... 13

Effaith bosibl ar ganfyddiadau ....... 17

Ein barn ni ....... 18

Ardaloedd eraill y Gwasanaethau Tân ac Achub ....... 21

Adolygiadau o Ddiwylliant Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ....... 21

Ein barn ni ....... 24

Rôl y Prif Gynghorydd Tân ac Achub o ran diwylliant ....... 26

Ein barn ni ....... 27

**3. Trefniadau llywodraethu presennol ....... 28**

Rôl Awdurdodau Tân ac Achub mewn perthynas â llywodraethiant ....... 28

Diwygio trefniadau llywodraethiant mewn Awdurdodau Tân ac Achub ....... 30

Ein barn ni ....... 32

Rôl Llywodraeth Cymru ....... 33

Ein barn ni ....... 35

Arolygu ac archwilio ....... 36

Ein barn ni ....... 37

Rôl Archwilio Cymru ....... 38

Ein barn ni ....... 39

**4. Opsiynau ar gyfer diwygio yn y dyfodol ........................................ 40**

Diwygio o fewn y trefniadau presennol ........................................ 40

Lleihau maint Awdurdodau Tân ac Achub ........................................ 40

Gwella capasiti ac arbenigedd ........................................ 41

Ein barn ni ........................................ 42

Ehangu rôl y gwasanaethau tân ac achub ........................................ 44

Ein barn ni ........................................ 45

**Atodiad 1: Sesiynau tystiolaeth lafar. ........................................ 47**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ........................................ 49**

Gwybodaeth Ychwanegol ........................................ 49

# 1. Cyflwyniad

Sbardunwyd ein hymchwiliad i lywodraethiant y gwasanaethau tân ac achub gan ganfyddiadau brawychus yr Adolygiad o Ddiwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan Fenella Morris CB. O'r cychwyn cyntaf, hoffem gydnabod gwaith caled ac ymroddiad pawb sy'n gwasanaethu fel personél y gwasanaeth tân ac achub, ym mha bynnag rôl, ledled Cymru heddiw. Mae peryglu eich diogelwch eich hun er mwyn amddiffyn eraill yn gofyn am lefel o ymrwymiad a dewrder na ddylid byth ei thanbrisio. Am hyn, rydym ni i gyd yn eich dyled.

Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn cael ei staffio gan dimau o weithwyr proffesiynol ymroddgar sy'n gweithio'n ddiflino i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Fodd bynnag, mae gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel yn y gwaith ac mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at y ffaith nad yw hyn yn wir mewn llawer o wasanaethau tân ledled Cymru a Lloegr. Gyda honiadau o fwlio, aflonyddu a gwahaniaethu yn y gweithle, mae diwylliant ein gwasanaethau tân ac achub bellach o dan y chwyddwydr am y rhesymau anghywir. Mae'n rhaid i hyn newid.

## Rôl y Pwyllgor

**1.** Rydym wedi ceisio gwneud cyfraniad adeiladol at siâp a llywodraethiant y gwasanaeth tân yn y dyfodol. Er ein bod wedi derbyn ceisiadau i wneud hynny, rydym wedi bod yn glir na allwn edrych ar honiadau penodol nac achosion unigol o gamymddwyn posibl. Nid yw ceisio ymyrryd ym mhrosesau disgyblu sefydliadau allanol yn rhan o'n rôl ychwaith.

**2.** Yn hytrach, ein rôl ni oedd casglu tystiolaeth, ystyried yr hyn rydym wedi'i glywed a dod i gasgliadau ar ran y bobl a'r cymunedau rydym yn cael ein hethol i'w cynrychioli.

**3.** Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth, gan gynnwys y cylch gorchwyl, ar hafan yr ymchwiliad. Rhoddir manylion y dystiolaeth a gasglwyd yn yr Atodiadau.

***Ffigur 1 Llinell amser o ddigwyddiadau allweddol yn ymwneud â diwylliant y gweithle yn y gwasanaethau tân ac achub***

**Tachwedd 2022**

Adolygiad Annibynnol o Ddiwylliant Brigâd Dân Llundain, dan gadeiryddiaeth Nazir Afzal OBE, yn dod i'r casgliad ei fod yn sefydliad rhywiaethol a hiliol

**Rhagfyr 2022**

ITV News yn tynnu sylw at enghreifftiau o aflonyddu rhywiol, ymddygiad amhriodol a diwylliant problemus yn y gweithle yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

**Chwefror 2023**

Prif Swyddog Tân De Cymru ar y pryd, Huw Jakeway, yn comisiynu adolygiad annibynnol o ddiwylliant y gweithlu, dan arweiniad Fenella Morris CB i gychwyn ym mis Ebrill y flwyddyn honno

**Mawrth 2023**

Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF (HMICFS) yn cyhoeddi adroddiad sy'n canfod bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu mewn dros hanner o'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr

**Mai 2023**

Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol yn ysgrifennu at Awdurdodau Tân ac Achub yn ceisio cadarnhad a sicrwydd bod yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wedi derbyn argymhellion adroddiad HMICFS ac wedi nodi camau i'w gweithredu

# 2. Diwylliant y Gwasanaeth Tân ac Achub

**4.** Nododd yr Adolygiad o Ddiwylliant dan arweiniad Fenella Morris CB (Adolygiad Morris) fethiannau difrifol mewn polisïau, gweithdrefnau a systemau yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.[1] Mewn ymateb i'r adroddiad, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar y pryd, Hannah Blythyn AS (y Dirprwy Weinidog), gyfarwyddyd gweinidogol yn trosglwyddo swyddogaethau'r Awdurdod Tân ac Achub i bedwar Comisiynydd a benodwyd ar 6 Chwefror 2024.[2] Mae Ffigur 2 yn rhoi llinell amser y digwyddiadau allweddol yn ymyriad Llywodraeth Cymru.

## Comisiynwyr Tân De Cymru

**5.** Amlinellodd y Dirprwy Weinidog gylch gwaith y Comisiynwyr yn y Cylch Gorchwyl, ac mae'n cynnwys:

- Gweithredu holl argymhellion Adolygiad Morris erbyn y terfynau amser a bennir (sydd rhwng 1 a 18 mis);
- Sefydlu uwch dîm rheoli "nad ydynt wedi'u handwyo gan y methiannau a nodwyd yn yr adroddiad"; a
- Sefydlu a gweithredu proses i ail-archwilio unrhyw achosion o gwynion a allai fod wedi cael sylw amhriodol ac annheg yn y gorffennol ac i sicrhau canlyniad teg a chyfiawn.[3]

**6.** O ran adnoddau, cadarnhaodd y Comisiynwyr y byddent yn defnyddio staff a chyllidebau presennol o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac y byddent yn gweithio gyda'i gilydd yn y cnawd am un diwrnod yr wythnos, ynghyd â chynnal cyfarfodydd ar-lein a galwadau ffôn yn ôl y galw.[4]

---

[1] Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cyhoeddiad Adolygiad Diwylliant Annibynnol, 3 Ionawr 2024
[2] Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddydau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (Arfer Swyddogaethau) (Cymru) 2024, 6 Chwefror 2024
[3] Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Comisiynwyr, Pwy Ydym Ni?
[4] Pwyllgor ESJ, Gohebiaeth gan Gomisiynwyr Tân De Cymru ynghylch Gwasanaethau Tân ac Achub, 27 Mawrth 2024

***Ffigur 2 Llinell amser y digwyddiadau allweddol yn ymyriad Llywodraeth Cymru***

**3 Ionawr 2024**

Adolygiad Annibynnol o Ddiwylliant Morris yn cael ei gyhoeddi. Y Prif Swyddog Tân Hugh Jakeway yn rhoi gwybod i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru am ei fwriad i ymddeol.

**9 Ionawr 2024**

Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol yn dweud nad yw hi wedi'i hargyhoeddi fod yr awdurdod yn gallu dylunio, goruchwylio a gweithredu'r broses ddiwygio a'r newid diwylliant sydd ei angen.

**15 Ionawr 2024**

Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn pleidleisio i dderbyn pob un o'r 82 argymhelliad yn Adolygiad o Ddiwylliant Morris a chreu Pwyllgor Gweithredu a Chynllun Gweithredu

**6 Chwefror 2024**

Y Dirprwy Weinidog yn nodi camau pendant y bydd yn eu cymryd ac yn cyhoeddi cyfarwyddyd i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru y bydd ei swyddogaethau'n cael eu harfer gan bedwar Comisiynydd

**12 Chwefror 2024**

Comisiynwyr yn cytuno i secondiad dros dro Stuart Millington i swydd Prif Swyddog Tân Interim De Cymru

**11 Mawrth 2024**

Y Dirprwy Weinidog yn cyhoeddi adolygiadau annibynnol i Awdurdodau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru

**7.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) fod cyfarfod o arweinwyr awdurdodau lleol o fewn ardal ddaearyddol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi nodi “nifer o bryderon a chwestiynau heb eu hateb ynghylch y goblygiadau i gynghorau” yn sgil penodi Comisiynwyr a bod y cyfathrebu â chynghorau wedi bod yn gyfyngedig hyd yma.[5]

**8.** Mewn gohebiaeth yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym, er bod y Comisiynwyr yn gwneud cynnydd, fod “materion ehangach o ran rheolaeth a phrosesau” Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi'u datgelu a'i bod yn “rhy fuan i roi amcangyfrif cywir o ba mor hir y gallai gymryd” ond bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddod â'r ymyriad “i ben yn llwyddiannus ac mewn modd cynaliadwy cyn gynted â phosibl, a chyn diwedd tymor y Senedd hon”.[6]

## Penodi'r Prif Swyddog Tân Interim

**9.** Un o benderfyniadau cyntaf y Comisiynwyr oedd gosod y Prif Swyddog Tân ar y pryd, Huw Jakeway, ar absenoldeb gweinyddol hyd nes y byddai'n ymddeol ym mis Ebrill 2024.[7] Yn ôl y Dirprwy Weinidog, golygai hyn fod angen penodi Prif Swyddog Tân Dros Dro gan fod gofod gweithredol yr oedd angen ei lenwi.[8] Fodd bynnag, roedd cyn-Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, y Cynghorydd Stephen Bradwick, a'r Gymdeithas Arweinwyr Tân yn anghytuno â hyn. Nododd y Gymdeithas fod y gofod gweithredol wedi'i greu o ganlyniad i benderfyniad gan y Comisiynwyr i osod Mr Jakeway ar absenoldeb arbennig yn gynt na'r bwriad gwreiddiol (ei ymddeoliad ym mis Ebrill 2024).[9]

Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[6] Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch gwasanaethau tân ac achub a chamau'n dilyn cyfarfod 22 Ebrill, 21 Mai 2024
[7] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Gohebiaeth rhwng Cymdeithas yr Arweinwyr Tân a'r Prif Weinidog yn ymwneud ag ymchwiliad i Wasanaethau Tân ac Achub, 15 Ebrill 2024
[8] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 42, 26 Chwefror 2024
[9] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 205, 11 March 2024; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Gohebiaeth rhwng y Gymdeithas Arweinwyr Tân a'r Prif Weinidog yn ymwneud â'r ymchwiliad i'r Gwasanaethau Tân ac Achub, 22 Ebrill 2024

**10.** Ar 12 Chwefror 2024, penododd y Comisiynwyr y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Stuart Millington, ar secondiad am gyfnod cychwynnol o 6 mis. Mynegodd sawl sefydliad bryder ynghylch y penodiad hwn.

**11.** Mynegodd Undeb y Brigadau Tân (FBU) a'r Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub (FRSA) eu syndod gyda'r penderfyniad, gyda'r FBU yn pasio pleidlais o ddiffyg hyder yn y penodiad i fynegi anfodlonrwydd.[10] Aeth Matt Wrack o'r FBU ati i gwestiynu'r broses benderfynu, gan gadarnhau nad oedd ei undeb wedi bod yn rhan o unrhyw waith, trafodaeth nac ymgynghoriad am y penodiad.[11]

**12.** Dywedodd Cerith Griffiths ar ran yr FBU:

> *"I was quite shocked at the appointment, given that we know that he now faces an employment tribunal. And we're talking about somebody who's coming in to lead an organisation through a period of cultural change, and he was brought in on the back of quite a number of complaints."*[12]

**13.** Dywedodd Peter Crews o Unsain bod y penodiad yn naïf a'i fod yn atgyfnerthu barn staff nad yw'r uwch arweinwyr yn meddwl am y sefyllfa bresennol, ac nad ydynt yn ei chymryd yn ddigon o ddifrif.[13]

**14.** Ar y llaw arall, esboniodd Prif Swyddog Tân Gogledd Cymru, Dawn Docx, fod y Comisiynwyr wedi gofyn am ei chaniatâd ar gyfer y secondiad, a disgrifiodd Mr Millington fel swyddog abl a chymwys. Dywedodd, hyd yn oed pe na bai wedi mynd i Dde Cymru, ei bod yn gwybod bod nifer o wasanaethau tân ac achub yn Lloegr yn ceisio ei ddenu. Ychwanegodd fod y sylwadau sydd wedi'u gwneud yn anffodus.[14]

**15.** Dywedodd Matt Hardingham o Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC) fod ei sefydliad yn edrych ar y ffordd orau o gefnogi Gwasanaeth Tân ac

---

[10] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 237, 4 Mawrth 2024
[11] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 159, 4 Mawrth 2024
[12] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 4 Mawrth 2024
[13] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 159, 4 Mawrth 2024
[14] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraffau 200-202, 11 Mawrth 2024

Achub De Cymru a'i brif swyddog tân dros dro ar y daith wella, a chanmolodd lefel yr ymrwymiad yr oedd Mr Millington yn ei roi i'r rôl.[15]

## Y broses benodi

**16.** Gofynnwyd i'r Comisiynwyr am ragor o wybodaeth am y broses benodi. Fe wnaethant esbonio'r canlynol:

- Bod angen dybryd i benodi Prif Swyddog Tân dros dro i lenwi bwlch ar unwaith yn y trefniadau cyflenwi ar alwad; a
- Bod pryderon am effeithiolrwydd y tîm arwain presennol yn golygu bod angen rhywun o'r tu allan i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru - ond y dylai fod yn berson sydd â phrofiad o'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn gyffredinol.[16]

**17.** O ran y broses, fe wnaethant gadarnhau'r canlynol:

- Bod un o'r pedwar Comisiynydd, Vij Randeniya (cyn Brif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Canolbarth Lloegr) wedi arwain proses i nodi unigolion addas a oedd ar gael yng Nghymru.
- Bod Mr Randeniya wedi gofyn i Dan Stephens, y Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub (CFRAI), a'r Prif Swyddogion Tân yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, i helpu i nodi enwau secondeion posibl a oedd yn bodloni'r meini prawf.
- Eu bod wedi chwilio am ymgeiswyr â chymhwysedd gweithredol ar lefel Prif Swyddog Tân Cynorthwyol ac uwch.
- Bod pob un o'r pedwar Comisiynydd wedi ymwneud â'r broses o adolygu'r unigolion a oedd ar gael. Deallwn fod dau ymgeisydd posibl ar y rhestr derfynol.

[15] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 240, 4 Mawrth 2024

[16] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Gohebiaeth gan Gomisiynwyr Tân De Cymru ynghylch Gwasanaethau Tân ac Achub, 27 Mawrth 2024

- Nid oedd unrhyw Weinidog na swyddogion yn Llywodraeth Cymru (ar wahân i'r CFRAI) wedi bod yn rhan o'r broses o nodi unigolion neu gymeradwyo'r secondiad.[17]

## Pryderon ynghylch ymddygiad blaenorol

**18.** Er bod rhai o'r pryderon yn ymwneud â'r broses, roedd y rhan fwyaf o'r amheuon posibl am y penodiad o ganlyniad i gwestiynau yn ymwneud ag ymddygiad blaenorol honedig Mr Millington ac effaith bosibl y rhain ar ganfyddiadau staff a'r cyhoedd.[18]

**19.** Er bod adroddiadau yn y cyfryngau fod ymddygiad Mr Millington yn y gorffennol yn golygu ei fod yn destun ymchwiliad parhaus i honiadau o fwlio, dywedodd ei gyflogwyr parhaol – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - fod hyn yn anghywir a bod yr ymchwiliad wedi dod i ben.[19] Ar yr un pryd, cawsom ar ddeall fod achos tribiwnlys cyflogaeth ar y gweill a bod Mr Millington yn barti i'r achos. Cyfarfu gwrandawiad rhagarweiniol y tribiwnlys ar 9 Mai 2024 ond nid yw wedi dod i benderfyniad hyd yma.[20]

**20.** O ran camymddwyn honedig blaenorol yn ymwneud â bwlio, dywedodd Prif Swyddog Tân Gogledd Cymru Dawn Docx y canlynol wrthym:

> *"The complaint had been investigated, and we had received the report, and of the complaints that were made, three were upheld and four were partially upheld, and they were actually learning points. So, as far as saying that we were in the middle of an investigation, no—it was complete, and knowing what those points were, I didn't feel that it was any barrier whatsoever for Stuart to be appointed as the interim chief fire officer."*[21]

---

[17] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Gohebiaeth gan Gomisiynwyr Tân De Cymru ynghylch Gwasanaethau Tân ac Achub, 27 Mawrth 2024
[18] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 4 Mawrth 2024
[19] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraffau 207-209, 11 Mawrth 2024
[20] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraffau 58 a 59, 22 Ebrill 2024
[21] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 204, 11 Mawrth 2024

**21.** Ychwanegodd Cadeirydd Cymdeithas Tân ac Achub Gogledd Cymru fod y gŵyn wedi bod yn destun ymchwiliad trylwyr, ac ymatebodd i dystiolaeth gynharach gan yr FBU:

> *"yes, there was a media storm regarding the appointment, and it was incorrectly stated that he was still under investigation, but I noticed that, when you last sat, Cerith Griffiths, executive council member for the FBU, stated:*
>
> *'We're willing to work with whoever' is appointed to lead the service forward in south Wales. Well, that begs the question of why, then, did the FBU look to vote for a no-confidence motion in the appointment of Stuart Millington, when they should have been saying, 'We will work with you to move the organisation forward'."*[22]

**22.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet, Julie James AS, fod y Comisiynwyr yn gwybod cyn penodi Mr Millington fod cwyn wedi'i gwneud amdano yn 2023, a bod y gŵyn honno wedi bod yn destun ymchwiliad allanol llawn a ddaeth i'r casgliad nad oedd achos disgyblu i'w ateb.[23]

**23.** O fis Mai 2023 ymlaen, roedd pob Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi cytuno ar drefniadau i gais Llywodraeth Cymru i roi gwybod i'r CFRAI am unrhyw honiadau yn ymwneud â staff uwch a oedd â'r potensial i fod yn gyfystyr â chamymddwyn, gan gynnwys pob achos o'r fath yn ymwneud â gwahaniaethu, bwlio neu aflonyddu ar sail nodwedd warchodedig.[24] Mewn ymateb i'n cwestiynau am yr honiadau penodol hyn, esboniodd y CFRAI Dan Stephens, er i agweddau ar y gŵyn yn erbyn Mr Millington gael eu cadarnhau, nid oedd yr un agwedd wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer ei ddisgyblu ac nad oedd ganddo unrhyw bryderon i'w codi yn y gofod disgyblu i'r comisiynwyr.[25]

---

[22] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraffau 208 i 210, 11 Mawrth 2024
[23] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 58, 22 Ebrill 2024
[24] Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Lywodraethiant yr Awdurdodau Tân ac Achub, 22 Ebrill 2024, tudalennau 46 - 48
[25] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 86, 22 Ebrill 2024

**24.** Cawsom dystiolaeth gan Dawn Docx, Dylan Rees, Ysgrifennydd y Cabinet a Dan Stephens rhwng mis Chwefror a diwedd mis Ebrill 2024. Yn ein sesiwn gyda Vij Randeniya a’r ohebiaeth a ddaeth i law, nodwyd bod y broses benodi wedi digwydd o fis Mawrth 2024. Ymddengys fod gwybodaeth a gafodd ei datgelu yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Ebrill 2024 ac a gafodd sylw yn y wasg ar 9 Mai 2024 yn dilyn y tribiwnlys cychwynnol yn gwrth-ddweud rhywfaint o’r dystiolaeth ynghylch y cwynion yn erbyn Mr Millington.[26] Er nad ein lle ni yw gwneud sylwadau ar achosion sy’n dal i fynd rhagddynt, rhoddodd nifer o sefydliadau cyfryngau sylw i ganfyddiadau adroddiad ymchwilydd annibynnol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2023 a ganfu dystiolaeth o achos prima facie y gallai gweithredoedd Mr Millington fod yn gyfystyr â bwlio ac aflonyddu a/neu wahaniaethu/aflonyddu ar sail gweithgarwch undeb llafur.[27]

**25.** Gwnaethom ysgrifennu at Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, y Comisiynwyr Tân, yr Ysgrifennydd Cabinet a’r CFRAI ar 15 Mai 2024 yn eu gwahodd i ystyried a oedd angen unrhyw eglurhad ychwanegol yn sgil canfyddiadau adroddiad yr ymchwilydd annibynnol. Amlinellodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei ddull o ymdrin â chamymddwyn yn unol â chanllawiau ACAS, gan ychwanegu nad oedd y ffactorau lliniarol a ystyriodd Clerc[*] Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wrth benderfynu ar y camau nesaf i ddatrys y mater mewn perthynas â Mr Millington wedi’u cyhoeddi.[28]

**26.** Nododd ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *“Er mwyn egluro materion, mae fy swyddogion wedi holi'r Prif Swyddog Tân Dawn Docx o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ymhellach. Mae hi wedi cadarnhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi comisiynu ymchwiliad annibynnol i honiadau yn erbyn Mr Millington y llynedd, yn unol â'i weithdrefnau sefydledig ar gyfer cwynion neu gwynion cyflogaeth sy'n ymwneud â staff uwch. Cyflwynwyd yr*

[26] Senedd Cymru, Cofnod y Trafodion, paragraff 40, 30 Ebrill 2024
[27] BBC Cymru Fyw, Adroddiad mewnol wedi beirniadu ymddygiad pennaeth tân, 9 Mai 2024, ITV Cymru, Fire boss tribunal hears details of 'bullying and harassment' complaint, 10 Mai 2024
[*] Yn yr achos hwn roedd y Clerc yn arfer ei ddyletswyddau fel Swyddog Monitro. Mae'r Swyddog Monitro yn rôl statudol ym mhob Awdurdod Tân ac Achub ac mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel, darparu hyfforddiant i Aelodau FRA a derbyn, gweithredu ar, a lle bo hynny'n briodol, ymchwilio i gwynion am achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad
[28] Gohebiaeth gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ynghylch yr ymchwiliad i’r gwasanaethau tân ac achub, cais am eglurhad, 21 Mai 2024

*adroddiad hwnnw i Brif Swyddog Tân Docx ar ôl ei gwblhau, a'i cyfeiriodd wedyn at y Swyddog Monitro i wneud penderfyniad terfynol yn annibynnol ar Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Daeth y Swyddog Monitro i'r casgliad nad oedd canfyddiadau'r adroddiad yn cyfiawnhau achos disgyblu yn erbyn Mr Millington. Fel y dywedodd y Prif Swyddog Tân Docx yn ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 11 Mawrth, fe ystyriodd fod y mater wedi'i gau wedyn, ac ni welodd y mater fel unrhyw rwystr i benodi Mr Millington yn Brif Swyddog Tân dros dro yn Ne Cymru."*

**27.** Cadarnhaodd ymateb y Comisiynwyr, er eu bod yn ymwybodol o'r adroddiad, na chawsant gopi ac nad oeddent wedi gweld ei gynnwys. Dywedodd Vij Randeniya fod y Comisiynwyr yn fodlon ymddiried yn y wybodaeth a roddwyd yn ddidwyll gan y Prif Swyddog Tân Docx, y Dirprwy Brif Swyddog Tân Forshaw, a'r Swyddog Monitro, bod y mater wedi'i gau gan nad oedd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer camau disgyblu a bod y ddau barti wedi cael gwybod am gyfleoedd dysgu.[29]

**28.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd nad oedd ei swyddogion wedi gweld cynnwys adroddiad yr ymchwilydd annibynnol, nad oeddent yn disgwyl ei weld, ac nad oedd neb wedi'i briffio hi na'r Dirprwy Weinidog ar ei gynnwys.[30]

**29.** O ran swydd Mr Millington, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet na fyddai'n ddefnyddiol ei droi allan o'r swydd yr oedd wedi cael ei roi ynddi ar y pryd, ond ei bod am archwilio'r mater a'r cyngor a gafwyd gan y Comisiynwyr a chytunodd i rannu cofnodion cyfarfodydd â'r Pwyllgor.[31] Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw hefyd at fanteision mwy o amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau a nododd fod yr holl uwch reolwyr yn Ne Cymru yn ddynion ar hyn o bryd.[32]

---

[29] Gohebiaeth gan y Comisiynwyr Tân ynghylch yr ymchwiliad i'r gwasanaethau tân ac achub, cais am eglurhad, 22 Mai 2024
[30] Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch gwasanaethau tân ac achub a chamau'n dilyn cyfarfod 22 Ebrill, 21 Mai 2024
[31] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraffau 61 a 62, 22 Ebrill 2024; Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio ynghylch gwasanaethau tân ac achub a chamau'n dilyn cyfarfod 22 Ebrill, 21 Mai 2024
[32] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 63, 22 Ebrill 2024

## Effaith bosibl ar ganfyddiadau

**30.** Un neges allweddol gan yr undebau llafur oedd bod canfyddiadau staff yn dylanwadu ar ymddygiad staff. Er enghraifft, dywedodd Unsain wrthym sut yr oedd rhai ymddygiadau penodol wedi atgyfnerthu canfyddiadau staff na fyddai cwyn yn cael ei thrin yn deg pan fyddai'n cael ei gwneud. Esboniodd Peter Crews mai un o'r rhesymau pam yr oedd staff yn teimlo fel hyn oedd oherwydd cysylltiadau personol a theuluol ar lefelau rheoli penodol ac y gallai unigolyn sy'n ymchwilio i achos fod yn rhan o'r un teulu neu'n ffrind sydd â chysylltiad agos.[33]

> *"It's called the 'Ski Club', unfortunately, where levels of management are all friends and they all go away together and they just felt it was an uncomfortable situation. And Unison recognises, '[…] we've all got colleagues in work [..] like that, never mind what role you hold. But I don't think any work was done with staff at all different levels to encourage people to come forward and to reinforce that, actually, if they did raise concerns, they would be dealt with fairly. So, the perception was there was no point in raising concerns, and the other issue with that is they felt there would be payback, so if they did raise any concerns, their career would be affected by it. Whether that's the reality is one issue, but the problem of it is it did seem ingrained."*[34]

**31.** Ategwyd y farn hon gan Cerith Griffiths o'r FBU. Dywedodd y byddai magu hyder bod eu materion yn mynd i gael sylw a bod eu lleisiau'n mynd i gael eu clywed yn hollbwysig wrth symud ymlaen.[35]

**32.** Yn y cyfamser, dywedodd Kathryn Billing, Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Cernyw, ar ran Menywod yn y Gwasanaeth Tân, fod rhaid i unrhyw awdurdod tân ac achub a Phrif Swyddog Tân fod eisiau arwain diwygio a newid diwylliant a bod angen adnoddau ac arweinyddiaeth wleidyddol i gyflawni hyn.[36]

---

[33] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 147, 4 Mawrth 2024
[34] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 148, 4 Mawrth 2024
[35] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 125, 4 Mawrth 2024
[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR09 Menywod yn y Gwasanaeth Tân

## Ein barn ni

### Ar yr ymyriad yn Ne Cymru

Mae penodi Comisiynwyr i gymryd drosodd gwasanaeth cyhoeddus fel arfer yn dynodi amgylchiadau neu fethiannau anghyffredin. Wrth ddarllen canfyddiadau Adolygiad Morris, nid oedd amheuaeth bod modd cyfiawnhau penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymyrryd. Dywed Adolygiad Morris fod gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru lawer o waith i'w wneud i wella ei ddiwylliant.

Rydym am gefnogi, yn hytrach na rhwystro gwaith y Comisiynwyr i gael trefn ar y sefyllfa unwaith eto – dyma un o'n hegwyddorion arweiniol o hyd. Fodd bynnag, rhaid i ni gydnabod nad ydym wedi cael y dechrau gorau. O amgylchiadau di-drefn braidd ymadawiad cyn-Brif Swyddog Tân De Cymru, Huw Jakeway, i ddiffyg eglurder a negeseuon cymysg mewn perthynas â phenderfyniadau allweddol, rhaid i bawb rannu'r cyfrifoldeb am hyn, gan gynnwys Gweinidogion Cymru a'u swyddogion y mae eu goruchwyliaeth gyffredinol o'r gwasanaeth yn amlwg wedi bod yn ddiffygiol ar adegau.

Mae'r ddadl ynghylch penodiad y Prif Swyddog Tân Dros Dro wedi codi dro ar ôl tro yn ystod ein gwaith craffu. Mae angen egluro ymhellach amgylchiadau'r penodiad yn arbennig.

Roeddem yn teimlo bod diffyg eglurder ac ymagwedd amddiffynnol, ddiystyriol bron iawn, sawl unigolyn a ymatebodd i'r pryderon hyn yn peri gofid. Yn ein barn ni, mae'r cwestiynau ynghylch y penodiad wedi peryglu atgyfnerthu rhai o'r canfyddiadau negyddol ymhlith staff a'r cyhoedd ynghylch uwch reolwyr a'r ymrwymiad i newid. At hynny, mae rhai o'n Haelodau yn eu rolau yn cynrychioli etholwyr hefyd wedi derbyn sylwadau gan staff yn uniongyrchol. Er na fu modd i'r Pwyllgor dderbyn y rhain fel tystiolaeth ffurfiol i'r ymchwiliad, mae'r tystiolaethau hyn wedi rhoi rheswm i ni gredu, yn anecdotaidd o leiaf, fod hyder staff yn y broses wedi ei danseilio.

**Casgliad 1.** Mae'r ddadl ynghylch penodiad y Prif Swyddog Tân Dros Dro ar gyfer De Cymru o bosibl wedi atgyfnerthu canfyddiadau negyddol ymhlith uwch reolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'n hanfodol y gwneir pob ymdrech i adfer hyder yn yr ymyriad drwy ymgysylltu'n ystyrlon â staff ym mhob agwedd ac ar bob cam o'r broses i gyflawni newid diwylliannol.

### Ar y dystiolaeth a ddaeth i law ynghylch y broses benodi

Cafodd ein pryderon eu dwysau gan y gochelgarwch y daethom ar ei draws gan rai a gyflwynodd i ni. Gwnaeth Dawn Docx, y Cynghorydd Dylan Rees, Dan Stephens a Vij Randeniya fychanu'r honiadau mewn ffordd y mae'n ymddangos ei bod yn anghyson â chanfyddiadau adroddiad yr ymchwilydd annibynnol. O ystyried yr anawsterau wrth gysoni'r tensiynau ymddangosiadol hyn, gwnaethom ysgrifennu at Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, y Comisiynwyr Tân, yr Ysgrifennydd Cabinet a'r CFRAI ar 15 Mai 2024 yn eu gwahodd i roi rhagor o eglurhad neu gyd-destun yn sgil canfyddiadau'r ymchwilydd annibynnol.

Er ein bod yn gwerthfawrogi'r eglurhad a roddwyd, ni newidiodd rai o'n hargraffiadau ac amheuon cyffredinol. Yn benodol, cawsom ein synnu nad oedd dim o'r dystiolaeth a gafwyd cyn ein ceisiadau ysgrifenedig am eglurhad wedi sôn am rôl y swyddog monitro yn yr achosion, o ystyried ei rôl allweddol yn y broses ac fel y canolwr terfynol. Rydym wedi dod i'r casgliad bod yr amharodrwydd hwn i fod yn agored yn symptom o batrwm ehangach o broblem diwylliannol ymhlith arweinwyr tân ac achub. Mae'n cynyddu ein pryderon ynghylch eu craffter ac a ydynt yn dirnad yn llawn maint yr her sydd o'u blaenau. O ystyried yr angen i sicrhau ymddiriedaeth unwaith eto, yn enwedig ymhlith staff, efallai y bydd angen i rai fyfyrio ar eu sefyllfa.

### Ar amrywiaeth rheolwyr

Mewn sector sy'n cael ei dominyddu'n hanesyddol gan ddynion, efallai nad yw'n syndod fod menywod yn y lleiafrif o ran rolau yn y rhan fwyaf o leoliadau. Mae'r ffigurau'n awgrymu bod yr anghydbwysedd hwn rhwng nifer y dynion a menywod mewn uwch-rolau mor amlwg fel ei bod yn debygol na heriwyd y rhywiaeth a nodwyd yn Adolygiad Morris. O ystyried effaith yr hierarchaeth a oedd yn gysylltiedig â rolau mewn lifrai o gymharu â rolau heb lifrai ar ddiwylliant yn ôl Adolygiad Morris, gwelwn fod y canlynol yn taflu goleuni arbennig ar y sefyllfa:

- Ar draws y sefydliad, roedd 71% o uwch reolwyr yn ddynion a 29% yn fenywod.
- Mewn swyddi uwch reolwyr "mewn lifrai", roedd 100% o uwch reolwyr yn ddynion, a 0% yn fenywod.

- Mewn swyddi uwch reolwyr "heb lifrai" roedd 53% yn ddynion a 47% yn fenywod.[37]

Mae angen mynd i'r afael â'r diffyg menywod mewn rolau uwch a'r gwahaniaethau sydd ynghlwm wrth rolau mewn lifrai a heb lifrai fel rhan o raglen ehangach o newid. Dylai ymgorffori newid diwylliannol i strwythurau'r gwasanaeth tân ac achub i'r dyfodol, gan wella amrywiaeth y proffil a'r sgiliau a'r profiadau rheoli, fod yn flaenoriaeth allweddol.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r Comisiynwyr Tân (a'r gwasanaethau eraill yn y Gogledd a'r Canolbarth a'r Gorllewin) i ddod ag unigolion newydd sydd â sgiliau a phrofiadau o'r tu allan i'r sector a, lle bo'n ddymunol, y tu hwnt i Gymru i swyddi allweddol, yn enwedig swyddi sy'n cael yr effaith fwyaf o ran diwylliant sefydliadol ehangach. Er mwyn cyflawni'r argymhelliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Comisiynwyr Tân i:

- Ystyried sut i ddenu ymgeiswyr o ystod fwy amrywiol o gefndiroedd gyda ffocws penodol ar ddenu arweinwyr benywaidd i rolau uwch reoli.
- Ystyried defnyddio'r broses o recriwtio Prif Swyddog Tân newydd ar gyfer De Cymru fel cyfle o bosibl i recriwtio rhywun o'r tu allan i'r sector i'r rôl honno.
- Sicrhau bod staff o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cymryd rhan ystyrlon mewn ysbryd o bartneriaeth gymdeithasol yn y broses recriwtio.

Rydym o'r farn bod 6 mis yn amserlen realistig ar gyfer yr argymhelliad hwn ac yn disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2024.

[37] Ffigurau gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, yn gywir ym mis Mai 2024

## Ardaloedd eraill y Gwasanaethau Tân ac Achub

**33.** Mae sawl sefydliad, gan gynnwys yr FBU, yr FRSA, a Menywod yn y Gwasanaeth Tân wedi mynegi pryderon bod y materion diwylliannol yn y De yn debygol o fod yn cael eu hefelychu yn y Gwasanaethau Tân ac Achub eraill.[38] Dywedodd Tristan Ashby ar ran yr FRSA:

> *"[...] We know that there will be similar outcomes in terms of the investigations, should they take place, and that the only difference will be the depth and the breadth."*[39]

**34.** Dywedodd Menywod yn y Gwasanaeth Tân ei fod wedi bod yn cwestiynu ers degawdau yr angen dros newid a'r angen i gefnogi menywod, gan ddadlau bod ymgyrch genedlaethol a chyfunol glir bellach i newid diwylliant o fewn y sector tân.[40]

**35.** Yn ôl yr Ysgrifennydd y Cabinet, er bod y ddau Awdurdod Tân ac Achub arall wedi cymryd ymagwedd fwy cadarnhaol ar y cyfan at weithredu amryw o argymhellion, na all Llywodraeth Cymru fod yn gwbl sicr am y mater hwn a bod y cynnydd yn parhau i fod yn araf.[41]

## Adolygiadau o Ddiwylliant Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru

**36.** Parhaodd honiadau ynghylch camymddwyn posibl yn y Gwasanaethau Tân ac Achub eraill i gael sylw yn y cyfryngau wrth i'n hymchwiliad fynd rhagddo, yn enwedig yn ystod darllediadau gan Newyddion ITV Cymru Wales.[42] Yn ystod y cyfnod hwn, clywodd yr Aelodau sylwadau hefyd gan aelodau presennol o staff a chyn-aelodau staff mewn ardaloedd Gwasanaeth Tân ac Achub eraill a ychwanegodd at y pryderon.[43]

---

[38] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR09 Menywod yn y Gwasanaeth Tân, FAR07- Cymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub
[39] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 4 Mawrth 2024
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR09 Menywod yn y Gwasanaeth Tân
[41] Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub, 22 Ebrill 2024
[42] Newyddion ITV Cymru Wales, North Wales Fire staff describe 'toxic culture', 29 Chwefror 2024
[43] Fel gyda sylwadau a dderbyniwyd gan Dde Cymru, nid oedd modd i'r Pwyllgor dderbyn y rhain fel tystiolaeth ffurfiol.

**37.** Yn ystod y Datganiad ar Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar 9 Ionawr 2024, dywedodd y Dirprwy Weinidog, er nad oedd y llywodraeth yn diystyru unrhyw beth, yn hytrach na chynnal adolygiadau ar wahân o'r Gwasanaethau Tân ac Achub eraill, y byddai'n parhau i'w dwyn i gyfrif am weithredu argymhellion adroddiad HMICFS o fis Mawrth 2022.[44] Dyma oedd polisi Llywodraeth Cymru o hyd yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar 26 Chwefror 2024.[45] Ar 11 Mawrth 2024, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog newid, gan gadarnhau y byddai Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnal adolygiadau annibynnol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y penderfyniad hwn wedi'i wneud o ganlyniad i ohebiaeth gan weithwyr presennol a chyn-weithwyr y ddau sefydliad, gan gynnwys honiadau o fwlio, aflonyddu rhywiol a ffafriaeth wrth ddyfarnu dyrchafiad.[46]

**38.** Yn dilyn y cyhoeddiad, dywedodd Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Dylan Rees, ei fod yn anghytuno'n llwyr â rhai o'r honiadau sydd wedi ymddangos yn y wasg yn ddiweddar, sydd fel pe bai'n awgrymu bod Gogledd Cymru yn yr un sefyllfa â De Cymru.[47]

**39.** Aeth Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Dawn Docx, ati i dynnu sylw at y cynnydd a wnaed, gan gynnwys arolygon staff a pholisïau chwythu'r chwiban wedi'u diweddaru:

> *"I am well aware that the culture in the fire and rescue services is not perfect […] We are fortunate in North Wales that 21.2 per cent of all our staff are women, and I am very proud to say that of our service leadership team, 50 per cent of them are women, and that makes a big difference to the culture of service."*[48]

[44] Senedd Cymru, Cofnod y Trafodion, paragraff 147, 9 Ionawr 2024
[45] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 132, 26 February 2024
[46] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, Diwylliant a gwerthoedd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, 11 Mawrth 2024
[47] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 168, 11 Mawrth 2024
[48] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 187, 11 Mawrth 2024

**40.** Croesawodd Roger Thomas, Prif Swyddog Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, oruchwyliaeth a chraffu annibynnol a dywedodd y byddent yn croesawu craffu allanol gan arbenigwyr ar ddiwylliant sefydliadol.[49]

**41.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet ei disgwyliadau clir bod angen i'r cylch gorchwyl ar gyfer y ddau ymchwiliad fod yn addas i'r diben, a dywedodd:

> *"I don't believe that the other fire and rescue services think they're in a position to have a review that simply underlines what they're already doing. We quite clearly have a problem in one of the fire and rescue services, and they will want to, I'm sure, be certain that they don't have that problem themselves."*[50]

**42.** O ran cwynion, roedd y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn croesawu'r nifer cynyddol a oedd wedi dod i law yn y Gogledd fel arwydd o gynnydd.[51] Yn ddiweddarach, dywedodd:

> *"The difficulty we have is that we don't know if some of these 'complaints', in inverted commas, are historic complaints with people who are dissatisfied with something that's happened some time ago and want to use the opportunity they see that they have now to try and still pursue that complaint. It's difficult for us to actually evaluate the extent that that is happening."*[52]

**43.** Nododd Unsain a'r FBU yr effeithiau tawelu y gall diffyg ffydd yn y weithdrefn gwyno eu cael, fel sydd wedi digwydd yn Ne Cymru yn ôl Adolygiad Morris. Yn ôl Cerith Griffiths, roedd hyn wedi arwain at amharodrwydd i godi llais a mynegi barn onest.[53]

---

[49] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 218, 11 Mawrth 2024
[50] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 22 Ebrill 2024
[51] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 113, 11 Mawrth 2024
[52] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 266, 11 Mawrth 2024
[53] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraffau 5 a 7, a 142, 4 March 2024

**44.** Cafodd pwysigrwydd ymddiriedaeth ei bwysleisio gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), sydd ei hun yn cymryd camau i wella ei diwylliant sefydliadol yn dilyn adolygiad yn 2022. Dywedodd WAST fod diffyg ymddiriedaeth yn golygu nad yw cydweithwyr yn codi eu llais o fewn y gwasanaeth ambiwlans a bod y normau cymdeithasol mwyaf cyffredin wedi normaleiddio ymddygiad gwahaniaethol dan esgus tynnu coes, a waethygir gan yr ymdeimlad cryf o hunaniaeth a pherthyn sy'n bresennol.[54] Dywedodd fod angen i sefydliadau ganolbwyntio ar wrando ar staff ac ysgwyddo cyfrifoldeb am gamgymeriadau'r gorffennol er mwyn adfer a dechrau'r broses o newid diwylliant:

> *"In recognising the impact that certain incidents may have had on individuals, a sincere and unreserved apology has been extended by the Trust Board. In so doing, the intention is not to be defensive but to genuinely acknowledge and learn from these experiences. This acknowledgment is a crucial step in fostering a culture of trust and collaboration within WAST. By taking ownership of organisational shortcomings and committing to continuous improvement, the aim is to build a workplace where everyone feels secure, respected, and supported."*[55]

## Ein barn ni

### Ar y diwylliant mewn ardaloedd Gwasanaethau Tân ac Achub eraill

O ystyried sut mae'r sefyllfa wedi datblygu yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, credwn ei bod yn gwbl briodol bod adolygiadau o ddiwylliant wedi'u cyhoeddi ar gyfer yr ardaloedd Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yn y Gogledd, a'r Canolbarth a'r Gorllewin. Rhaid i ni roi'r amser a'r lle angenrheidiol i'r adolygiadau hynny gynnal eu hymchwiliadau. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru ystyried alinio Cylch Gorchwyl yr adolygiadau hynny mor agos â phosibl â pharamedrau Adolygiad Morris, fel bod pob sefydliad yn cael ei bwyso a'i fesur yn ôl safonau a metrigau cyson.

[54] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR06 Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
[55] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR06 Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Argymhelliad 2.** Mewn perthynas ag Adolygiadau o Ddiwylliant Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, dylai Llywodraeth Cymru alinio'r Cylch Gorchwyl mor agos â phosibl â pharamedrau Adolygiad Morris i hwyluso cymharu unrhyw broblemau posibl ym mhob sefydliad. Byddem yn gobeithio y gellir gweithredu'r argymhelliad hwn ar unwaith, ac y gellir cwblhau'r Adolygiadau mewn modd rhesymol amserol.

**Ar ymdrin â chwynion**

Roedd yn destun pryder bod peth o'r dystiolaeth fel pe bai'n tanbrisio neu'n tanseilio hygrededd y rhai a gyflwynodd gwynion fel awydd i dalu'r pwyth yn ôl neu gynnal fendeta bersonol, o ystyried cyd-destun Adolygiad Morris. Roedd y defnydd o ystum corfforol i ddynodi dyfynodau yn ystod y drafodaeth ar gwynion gan Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn enghraifft dda o hyn. Er bod risg bob amser y bydd rhai yn ceisio camddefnyddio'r system, rhaid i ddiwylliant sefydliadol iach gael ei adeiladu ar sail parch, y naill at y llall, ac ymddiriedaeth. Gall diffyg ymddiriedaeth rhwng y naill ochr a'r llall gael effaith dawelu ar barodrwydd unigolion i godi llais a mynegi barn onest. Mae gan uwch arweinwyr rôl bwysig o safbwynt gosod y naws yn hynny o beth. O gofio mai dim ond o ganlyniad i ddewrder chwythwyr chwiban y daeth rhai o'r honiadau mwy difrifol i'r amlwg, mae'n hanfodol bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i'w cefnogi nhw a staff yn fwy cyffredinol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'n glir ei disgwyliadau y bydd aelodau presennol o staff neu gyn-aelodau staff sy'n gwneud cwynion yn ystod y cyfnod hwn yn unrhyw un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn cael eu cefnogi'n ddigonol a'u trin yn deg yn unol ag ymarfer AD sefydledig. Er mwyn rhoi'r sicrwydd hwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen arbenigedd a/neu adnoddau ychwanegol i gefnogi'r swyddogaethau AD sy'n angenrheidiol yn ystod y misoedd nesaf. Dylid gweithredu'r argymhelliad hwn ar unwaith, a darparu diweddariad erbyn mis Tachwedd 2024.

## Rôl y Prif Gynghorydd Tân ac Achub o ran diwylliant

**45.** Mae Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru (CFRAI) yn cynghori Llywodraeth Cymru ar barodrwydd gweithredol, perfformiad a strwythur a threfniadaeth y gwasanaeth tân ac achub. Mae hyn yn cynnwys cynnal adolygiadau "thematig" penodol fel y tybia Gweinidogion Cymru sy'n angenrheidiol.[56]

**46.** Yn ein sesiwn weinidogol gyntaf ar 29 Chwefror 2024, dywedodd y CFRAI presennol, Dan Stephens, wrthym nad yw materion diwylliannol gwasanaeth yn bethau y byddai prif gynghorydd tân ac achub yn ymchwilio iddynt fel mater o drefn.[57]

**47.** Dywedodd yr FBU fod hyn yn peri syndod iddynt.[58] Dywedodd Matt Wrack:

> *"If you look at the history of the service and the debate on diversity within it, going back to the 1990s, the then inspectorate, which covered England and Wales at the time, did do thematic reviews, including on equality and diversity in the fire and rescue service. I don't understand why someone, today, when that debate's been going on, and stalled to some degree for 40 years, would say that that's not part of his role."*[59]

**48.** Ar y llaw arall, dywedodd Prif Swyddog Tân Gogledd Cymru, Dawn Docx, fod y rôl wedi'i chyfyngu i faterion lle mae'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn cyflawni eu swyddogaethau, a materion technegol yn ymwneud â'r swyddogaethau hynny. Aeth ymlaen i ddweud na fyddai o reidrwydd yn nodi materion diwylliannol, a'i bod yn rôl ran-amser.[60]

[56] Llywodraeth Cymru, Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru
[57] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 26 February 2024
[58] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraffau 47 i 52, 4 Mawrth 2024
[59] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 52, 4 Mawrth 2024
[60] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 331, 11 Mawrth 2024

**49.** Dywedodd Dirprwy Brif Swyddog Tân Dros Dro Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Dewi Rose, ei fod ef, ers adroddiad HMICFRS ym mis Mawrth 2023, wedi darparu diweddariadau rheolaidd i'r ymgynghorydd tân ar y cynnydd yn erbyn yr adroddiad sbotolau, gan gynnwys nifer y cwynion, yr achosion o ddisgyblu , y cwynion cyflogaeth a'r cwynion chwythu'r chwiban a oedd wedi dod i'w rhan.[61]

**50.** Yn ystod yr ail sesiwn weinidogol ar 22 Ebrill 2024, dywedodd Dan Stephens wrthym ei fod wedi cynnal adolygiad yr union yr un fath ag un HMICFRS i achosion disgyblu etifeddol ym mis Mawrth 2023 a bod y Dirprwy Weinidog wedi cael ei friffio ar ei ganfyddiadau ym mis Mai 2023.[62]

## Ein barn ni

Mae darganfod nad oedd materion diwylliant yn cael eu hystyried yn rhan arferol o rôl y CFRAI yn peri pryder i ni. Mae hyn yn awgrymu culni neu ddiffyg eglurder ynghylch rôl y CFRAI, a dylid mynd i'r afael â hynny. Yn benodol, dylai'r rôl fod yn ymatebol i'r holl faterion o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub, gan gynnwys materion diwylliannol, a dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud hyn yn fwy eglur fel blaenoriaeth.

**Casgliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro rôl y CFRAI fel ei bod yn fwy ymatebol i'r holl faterion sy'n effeithio ar y gwasanaeth tân ac achub.

[61] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 255, 11 Mawrth 2024
[62] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 13, 11 Mawrth 2024

# 3. Trefniadau llywodraethu presennol

**51.** Un cwestiwn allweddol oedd i ba raddau y gallai trefniadau llywodraethu fod wedi cyfrannu at y methiannau diwylliannol a nodwyd yn Adolygiad Morris. Yn gyfreithiol, un endid yw Awdurdod Tân ac Achub. Er y gwahaniaethir rhwng yr Awdurdod Tân ac Achub a'r Gwasanaeth Tân ac Achub (a fwriedir fel arfer i olygu'r personél a gyflogir gan yr Awdurdod Tân ac Achub, gyda'r mwyafrif ohonynt mewn lifrai), nid yw Gwasanaeth Tân ac Achub yn bodoli'n ffurfiol.[63] Mae'r trefniadau hyn yn wahanol, er enghraifft, i drefniadau ar gyfer plismona lle mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn pennu'r gyllideb a'r cyfeiriad strategol a Phrif Gwnstabliaid yr Heddlu sy'n ddeiliaid swyddi yn eu rhinwedd eu hunain ac sydd â phwerau a dyletswyddau gweithredol ar wahân.

**52.** Ar fater llywodraethiant, dadleuodd NFCC na ellir gorbwysleisio ei bwysigrwydd ac y bydd cyswllt bob tro rhwng methiannau corfforaethol a llywodraethu.[64]

## Rôl Awdurdodau Tân ac Achub mewn perthynas â llywodraethiant

**53.** Yn ôl adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, a gyhoeddwyd yn 2014, "nid yw, ac ni all, y tri awdurdod tân ac achub graffu ar y gwasanaethau a'r prif swyddogion yn effeithiol gan eu bod yn bennaf ac yn gyfreithiol gyfrifol am yr holl benderfyniadau a wneir am wasanaethau tân". Byddai manteision amlwg, meddai, i'r awdurdodau tân ac achub "ganolbwyntio ar graffu ar y gwasanaethau tân, ac i'r prif swyddogion fod yn uniongyrchol gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau".[65]

**54.** Yn achos De Cymru, dywedodd Cymdeithas y Swyddogion Tân (FOA) ei bod yn amlwg nad oedd gan aelodau o Awdurdod Tân ac Achub De Cymru y sgiliau angenrheidiol i ddarparu'r lefel o oruchwyliaeth, craffu a her sydd ei hangen wrth ddarparu llywodraethiant ar gyfer sefydliad sector cyhoeddus mawr (yn nhermau gwasanaeth tân ac achub). Dadleuodd yr FOA nad yw llawer o aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud fawr ddim cyfraniad o gwbl yn ystod cyfarfodydd a bod rhai aelodau yn drysu ynghylch cynnwys papurau. Daethant i'r casgliad bod aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn annhebygol o fod mewn

[63] Cyfraith Cymru, Cyfansoddiad Awdurdodau Tân ac Achub, 15 Mehefin 2021
[64] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR04 Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
[65] Llywodraeth Cymru, Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, Adroddiad Cryno, Ionawr 2014

sefyllfa i ddarparu'r lefel o oruchwyliaeth strategol effeithiol sydd ei hangen i gynorthwyo'r sefydliad i gyflawni'r newid diwylliannol angenrheidiol.[66]

**55.** O ran gwasanaethau tân ac achub yn fwy cyffredinol, dywedodd Tristan Ashby o'r FRSA eu bod mewn cyflwr truenus a dadleuodd nad yw Awdurdodau Tân ac Achub yn amlwg yn abl i gyflawni'r gorchwyl. Ychwanegodd fod llawer o aelodau'r awdurdod tân yn cael cysur yn y ffaith mai dynion sy'n dominyddu'r gwasanaethau ac yn y drefn awdurdodol sydd ar waith. Roedd o'r farn eu bod yn amaturiaid sy'n llawn bwriadau da, heb unrhyw brofiad o sbarduno newid diwylliannol mewn unrhyw sefydliad, heb sôn am wasanaeth brys.[67]

**56.** Ar y llaw arall, roedd y cyflwyniadau gan yr Awdurdodau Tân ac Achub eu hunain yn ceisio tanbrisio rôl llywodraethu, gydag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dyfynnu canfyddiadau Adolygiad Morris bod digon o strwythurau cyfreithiol ar waith ar gyfer llywodraethu'r Gwasanaeth yn effeithiol.[68]

**57.** Dadleuodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn erbyn y ffocws ar lywodraethiant:

> *"It is too simplistic to think that an organisation's culture is directly controllable by adjusting some aspect of "governance arrangements" or through structural change. Attitudes and behaviours are often deep rooted. It takes time to foster 'good' ethical attitudes and behaviours."*[69]

**58.** Ychwanegodd Gogledd Cymru eu barn bod rhaid caniatáu digon o amser i'r Comisiynwyr weithredu argymhellion a dod i gasgliadau heb ychwanegu rhagor o haenau o gymhlethdod i'r sefyllfa.[70]

---

[66] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR01 – Y Gymdeithas Swyddogion Tân
[67] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR07 – Y Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub
[68] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR02 – Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru; FAR04- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
[69] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR04 – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
[70] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR04 – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

**59.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod Adolygiad Morris wedi mynd i'r afael yn rhannol â materion llywodraethu a'i ganfyddiadau ynghylch digonolrwydd strwythurau cyfreithiol. Fodd bynnag, yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet, er bod hynny'n wir o safbwynt "ffurfiol", fod sut mae sefydliad yn mynd ati i lywodraethu yn ymwneud â mwy na bodolaeth pwerau statudol.[71] Cydnabu, er na fyddai'n deg disgwyl i aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub fod yn ymwybodol o bob manylyn o'r arferion rheoli ac na fyddai'n deg eu beio am weithredoedd camymddwyn unigol, fod rhaid iddynt rannu rhywfaint o gyfrifoldeb pan ddaw methiannau ar raddfa'r rhai a nodwyd gan Ms Morris CB i'r amlwg.

**60.** Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at benderfyniadau i wrthod argymhellion y CFRAI ar wella perfformiad ac i gymeradwyo codiadau cyflog sylweddol i uwch swyddogion yn ystod 2023 fel tystiolaeth bosibl nad oedd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru o bosibl wedi bod yn amgylchedd a oedd yn ffafriol i ddwyn rheolwyr i gyfrif yn effeithiol.[72]

## Diwygio trefniadau llywodraethiant mewn Awdurdodau Tân ac Achub

**61.** Cafwyd nifer o ymdrechion i ddiwygio Awdurdodau Tân ac Achub dros y degawd diwethaf, gyda llwyddiant cyfyngedig yn unig. Dywedodd Ade Robinson o FOA wrthym, er enghraifft, ei bod yn ymddangos nad yw ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio yn 2018 wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ac na fu unrhyw newid o gwbl yn nifer ac ansawdd aelodau'r awdurdod tân (yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru).[73]

**62.** Amlinellodd yr FRSA eu barn ar y buddiannau breintiedig sy'n rhwystrau posibl i ddiwygio:

> *"[...] local authority members who do not wish to lose control of their positions; chief fire officers who enjoy the lax governance arrangements; those unwilling to change duty systems or broaden roles as the current system inhibits development of the firefighter role; those in other emergency services who do not wish to become too closely aligned with fire and rescue service, which they see as tainted; other emergency services whose*

---

[71] Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub, 22 Ebrill 2024
[72] Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub, 22 Ebrill 2024
[73] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR01 – Y Gymdeithas Swyddogion Tân

*leaders are unwilling to explore the full benefits of collaboration."*[74]

**63.** Yn ystod ymgynghoriad 2018 ar ddiwygio, dywedodd CLlLC nad oedd yn credu, ar y pryd, fod angen newidiadau sylweddol, ac nad oedd yr achos dros newid wedi'i wneud.[75]

**64.** Cyfeiriodd NFCC at nifer o fodelau llywodraethu a ddefnyddir ledled y DU (e.e. y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, modelau maerol gwahanol) a dywedodd mai ansawdd y llywodraethu, yn hytrach na'r math o lywodraethu, ac ansawdd y rhai mewn rolau arwain sy'n cael yr effaith fwyaf.

**65.** Rhannwyd y farn hon gan yr Archwilydd Cyffredinol, Adrian Crompton, a ddywedodd nad oes safon aur, gan bwysleisio bod strwythur yn bwysig mewn unrhyw system lywodraethu, ond yr hyn sydd bwysicaf yw ymddygiad a pherfformiad unigol y bobl sy'n ymwneud â'r system honno.[76] Tynnodd Mr Crompton sylw at y peryglon o lywio cyfundrefn mewn ymateb uniongyrchol i fethiant ac argyfwng—perygl y byddwn yn mynd ar drywydd penodol sy'n ymddangos yn gwbl briodol ar y pryd ond nad yw o reidrwydd yr un iawn ar gyfer y tymor hwy.[77]

**66.** Dywedodd Llywodraeth Cymru bod ei phryderon ynglŷn â llywodraethu wedi eu mynegi sawl gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond bod pob Awdurdod Tân ac Achub wedi gwrthwynebu'n chwyrn yr holl gynigion ar gyfer newid y drefn lywodraethu ar y sail eu bod o'r farn bod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda. Ym marn Ysgrifennydd y Cabinet, mae datblygiadau ers hynny yn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn bennaf, ond mewn Awdurdodau eraill hefyd, yn dangos canlyniadau llywodraethu diffygiol ac atebolrwydd gwael.[78]

---

[74] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR07- Y Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR10- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[76] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 21, 11 Mawrth 2024
[77] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 70, 11 Mawrth 2024
[78] Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub, 22 Ebrill 2024

**67.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet sawl problem bosibl ynghylch cyfansoddiad yr Awdurdodau Tân ac Achub ar hyn o bryd, gan gynnwys:

- Nid yw Awdurdodau Tân ac Achub yn amlwg atebol i unrhyw gorff allanol ac nid ydynt yn atebol mewn modd ystyrlon i'r etholwyr.
- Mae cyllid Awdurdodau Tân ac Achub yn deillio o godi ardoll cyfraniadau ar eu hawdurdodau lleol cyfansoddol, ar gyfraddau y mae pob Awdurdod Tân ac Achub unigol yn penderfynu arnynt. Nid oes hawl i awdurdodau lleol na Llywodraeth Cymru gapio.ardoll o'r fath na chydsynio iddi.
- Diffyg gwahaniad rhwng swyddogaethau gweithredol a chraffu.
- Aelodaeth fawr ac anhylaw, gydag Awdurdodau Tân ac Achub yn amrywio o fod â rhwng 24 a 28 o aelodau.
- Mae diffyg arbenigedd ymysg aelodau Awdurdodau Tân ac Achub yn creu anghydbwysedd posibl rhwng arbenigedd uwch swyddogion a gallu'r rhai sy'n gyfrifol am eu dwyn i gyfrif.[79]

## Ein barn ni

### Ar y rôl lywodraethu

Rydym yn gwrthod y ddadl bod trefniadau llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub yn elfennau ymylol neu heb gyfrannu o gwbl at fethiannau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Mae methiannau ar raddfa'r rhai a nodwyd gan Adolygiad Morris bron yn sicr yn adlewyrchiad o ddiffygion llywodraethu cyffredinol sefydliad. Rydym yn amau bod y rhai sy'n ceisio hawlio fel arall yn gwneud hynny yn bennaf er eu budd eu hunain. Ac er ein bod yn cydnabod y gall yr Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru ddangos ymrwymiad i newid o fewn y trefniadau presennol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y dylid ystyried rhai newidiadau ar unwaith o ystyried difrifoldeb y canfyddiadau.

[79] Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub, 22 Ebrill 2024

**Casgliad 3.** Rydym yn cytuno bod gwendidau yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi cyfrannu at y methiannau a nodwyd yn Adolygiad Morris ac, o ganlyniad, y dylai newidiadau i'r trefniadau llywodraethu fod yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru.

**Ar rwystrau i ddiwygio Awdurdodau Tân ac Achub**

Prin yw'r rhesymau dros wrthwynebu diwygio'r Awdurdodau Tân ac Achub mewn egwyddor. Er ein bod yn ymwybodol o faglau posibl y gall llywio cyfundrefn mewn ymateb uniongyrchol i argyfwng eu creu yn y tymor hwy, ac yn derbyn bod angen i amserlenni ar gyfer diwygio mawr fod yn realistig, nid yw dim newid o gwbl yn opsiwn credadwy. Nodwn na chafodd diwygiadau blaenorol eu gwireddu yn wyneb gwrthwynebiadau gan bartïon amrywiol ar gyfnodau gwahanol.

Wrth ymgysylltu â'r sector, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i bartneriaeth gymdeithasol sy'n cynnwys cyfarfodydd rheolaidd y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae'r dull hwn, fel y nodir yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, yn seiliedig ar yr angen i geisio cyfaddawd a chonsensws. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oedd fawr o obaith o gyfaddawd neu gonsensws yn ystod ymdrechion blaenorol i ddiwygio. Os bydd y gwrthwynebiadau hyn yn parhau, rydym yn dal i fod yn ansicr sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cysoni'r pwysau hyn a allai fod yn cystadlu â'i gilydd a byddem yn croesawu eglurhad yn hynny o beth.

**Casgliad 4.** Byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar sut y mae'n bwriadu cysoni'r pwysau a allai fod yn cystadlu â'i gilydd o ran yr angen i ddiwygio ar y naill law, a'r diffyg consensws neu'r posibilrwydd o gyfaddawd ar rai agweddau ar y diwygiadau hynny ar y llaw arall.

## Rôl Llywodraeth Cymru

**68.** O dan y ddeddfwriaeth a ddatganolodd y cyfrifoldebau dros dân ac achub i Gymru, rhaid i Lywodraeth Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub. O dan adran 21 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("Deddf 2004"), "rhaid" i'r Fframwaith nodi blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub Tân a "chaiff" gynnwys canllawiau i Awdurdodau Tân ac Achub mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau.[80]

[80] Legislation.gov, Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

**69.** Mae Deddf 2004 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad bob dwy flynedd o leiaf ynghylch i ba raddau mae'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi gweithredu'n unol â'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub. Nid yw'n ofynnol iddynt osod yr adroddiad gerbron y Senedd, yn wahanol i drefniadau cyfatebol ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gorfod cyflwyno adroddiad i Senedd Lloegr (ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr).[81]

**70.** Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru osod dangosyddion perfformiad a safonau perfformiad, y gellir eu defnyddio i fesur perfformiad Awdurdod Tân ac Achub.[82]

**71.** Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Fframwaith Cenedlaethol wedi dyddio erbyn hyn gan nifer o dystion, gan gynnwys NFCC, Archwilio Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**72.** Disgrifiodd Dawn Docx y Fframwaith Cenedlaethol fel y cyfrwng i sbarduno newid ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub, a galwodd ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio ei phwerau.[83]

**73.** Ychwanegodd NFCC fod digwyddiadau arwyddocaol fel y pandemig, a'r adolygiadau o Dân Tŵr Grenfell ac ymosodiad Arena Manceinion wedi digwydd ers y cyhoeddiad diwethaf ac y byddai adolygiad o'r Fframwaith Cenedlaethol yn amserol.

**74.** Esboniodd Llywodraeth Cymru fod ei huchelgeisiau ar gyfer iteriad nesaf y Fframwaith Cenedlaethol yn cynnwys moderneiddio'r gwasanaeth tân ac achub a'i huchelgeisiau o ran ehangu rôl diffoddwyr tân. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod yr oedi cyn diweddaru'r Fframwaith Cenedlaethol yn rhannol o ganlyniad i'r angen i roi mwy o amser i Awdurdodau Tân ac Achub weithredu argymhellion y CFRAI mewn perthynas â'r uchelgeisiau hyn.[84]

---

[81] Legislation.gov, Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, adran 62(2)
[82] Legislation.gov, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009
[83] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 292, 11 Mawrth 2024
[84] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 59, 26 Chwefror 2024

### Y Bwrdd Safonau Tân yn Lloegr

*Yn 2018, sefydlwyd y Bwrdd Safonau Tân i oruchwylio a chomisiynu safonau proffesiynol ar gyfer gwasanaethau tân ac achub ledled Lloegr.*

*Dywedodd y Bwrdd Safonau Tân wrthym, er nad yw'n fandadol i wasanaethau yn Lloegr gydymffurfio â'r Safonau Tân, fod Fframwaith Tân Cenedlaethol Lloegr yn ei gwneud yn glir fod disgwyl i Wasanaethau roi sylw dyledus iddynt. Gwnaethant dynnu sylw at sawl safon yr oeddent o'r farn eu bod yn berthnasol i'r materion hynny y tynnwyd sylw atynt gan Adolygiad Morris, gan gynnwys: arwain y gwasanaeth; arwain a datblygu pobl; cyfathrebu ac ymgysylltu; safon y cod moeseg a diogelu.*[85]

## Ein barn ni

### Ar y Fframwaith Cenedlaethol

Nodwn fod tystiolaeth a ddaeth i law o bob rhan o'r sector yn awgrymu y byddai diweddariad i'r Fframwaith Cenedlaethol nid yn unig i'w groesawu, ond ei fod yn hen bryd ei gael. Ar yr un pryd, nodwn hefyd ddadl Llywodraeth Cymru bod yr oedi hwn yn rhannol o ganlyniad i'r angen i roi mwy o amser i Awdurdodau Tân ac Achub weithredu argymhellion blaenorol a wnaed gan y CFRAI mewn perthynas ag ehangu rôl diffoddwyr tân.

Credwn fod angen dybryd i ddiweddaru'r Fframwaith Cenedlaethol fel ei fod yn adlewyrchu datblygiadau diweddar ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi amserlen ar gyfer cytuno ar Fframwaith Cenedlaethol newydd mewn ymateb i'r adroddiad hwn.

[85] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR03- Y Bwrdd Safonau Tân

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r Fframwaith Cenedlaethol ar unwaith er mwyn ystyried digwyddiadau diweddar a chanlyniadau sawl adolygiad. Fel rhan o'r broses, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Gosod yr amserlen ar gyfer cytuno ar Fframwaith Cenedlaethol newydd;
- Ystyried sefydlu cyfres o ddangosyddion perfformiad a safonau perfformiad i gyd-fynd â'r Fframwaith; a
- Mynd ati'n rhagweithiol i osod copïau o adroddiadau gweithredu yn y dyfodol gerbron y Senedd.

Dylai'r Fframwaith a'r dangosyddion perfformiad newydd fod yn eu lle erbyn mis Mai 2025 fan bellaf.

## Arolygu ac archwilio

**75.** Pwysleisiodd NFCC, yr FBU, FOA a'r FRSA bwysigrwydd cyfundrefnau arolygu ac archwilio cadarn o safbwynt roi sicrwydd ynghylch perfformiad Gwasanaethau Tân ac Achub i'r cyhoedd.[86]

**76.** Galwodd FOA ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn system debyg i HMICFRS sy'n cynnwys cyhoeddi'r canlyniadau.[87]

**77.** Cwestiynodd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru y mandad am unrhyw gynnig i gryfhau'r drefn arolygu ac archwilio.[88]

**78.** Galwodd yr FRSA ar Lywodraeth Cymru i osod canllawiau clir ac i dimau gael eu tynnu o'r tu allan i Gymru i'w hatal rhag bod yn rhy agos at y rhai sy'n cael eu harolygu.[89]

[86] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR08- Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 121, 4 Mawrth 2024
[87] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR01 – Y Gymdeithas Swyddogion Tân
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR02- Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
[89] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR07- Y Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub

**79.** Dywedodd Mark Hardingham o NFCC fod newidiadau yn Lloegr yn golygu bod archwiliadau rheolaidd a pharhaus o'r gwasanaethau tân ar draws eu holl swyddogaethau. Wrth gymharu'r drefn ag arolygiad Ofsted, dywedodd Cadeirydd NFCC fod Gwasanaeth Tân ac Achub wedyn yn derbyn sgôr ar draws gwahanol feysydd a bod modd iddo dderbyn cymorth ychwanegol mewn meysydd sy'n peri pryder. Mae hyn yn llywio cyfarfodydd chwarterol gyda'r arolygiaeth, llywodraeth leol a llywodraeth y DU lle mae'r gwasanaethau tân yn adrodd ar gynnydd a gwelliant parhaus.[90]

**80.** O ran rôl y CFRAI mewn arolygiadau, dadleuodd FOA, yr FRSA ac eraill o blaid cadw rôl y CFRAI ar wahân i unrhyw drefn arolygu.[91] Ychwanegodd yr FRSA nad oes gan y CFRAI yr adnoddau ar hyn o bryd i ymgymryd â'r drefn arolygu gadarn y maent yn ei chymeradwyo.[92]

**81.** Mynegodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru bryderon y byddai capasiti yn her, gan y byddai angen symud gweithwyr o wasanaeth rheng flaen i gynhyrchu'r dystiolaeth a pharatoi ar gyfer yr arolygiadau.[93]

**82.** Amlygwyd ffocws ar y gyfundrefn arolygu fel rhan o'r ateb yn unig. Aeth FOA, NFCC ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru ati i dynnu sylw at y ffaith bod HMICFRS wedi methu canfod rhai o'r diwylliannau ac arferion gwael yn y gweithle sydd wedi dod i'r amlwg ers hynny yn Lloegr fel rhan o'i raglen arolygu, er enghraifft, yn Wiltshire a Dorset.[94]

## Ein barn ni

### Ar arolygiadau a pherfformiad

Nodwn fod llawer o'r ymatebion yn pwysleisio rôl arolygu rheolaidd wrth asesu perfformiad a bod arolygiadau yn Lloegr wedi'u defnyddio fel arf i godi safonau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw arolygiadau rheolaidd yn ateb pob problem, ac mae sawl agwedd ymarferol y byddai angen eu hystyried ymhellach cyn y gellid sefydlu trefn arolygu yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys sut i sicrhau

---

[90] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraffau 300 a 301, 4 Mawrth 2024
[91] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR01 - FOA, FAR07- Y Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub
[92] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 296, 4 Mawrth 2024
[93] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR04- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
[94] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR01 - FOA, FAR08 - NFCC, FAR04- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru; Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub, 22 Ebrill 2024

adnoddau i'r arolygiaeth a sut i ofalu nad yw'r arolygwyr yn rhy agos at y rhai sy'n cael eu harolygu o ystyried mai dim ond 3 Gwasanaeth Tân ac Achub sydd yna, gyda dau ohonynt yn fach yn ôl safonau'r DU.

O ran rôl y CFRAI, nodwn fod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth o blaid cynnal y gwahaniad rhwng y rôl hon ac unrhyw drefn arolygu bosibl yn y dyfodol.

**Casgliad 5.** Dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddatrys ymarferoldeb sefydlu trefn arolygu yng Nghymru ochr yn ochr â diwygio trefniadau llywodraethu yn ehangach.

## Rôl Archwilio Cymru

**83.** O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cyfrifon Awdurdodau Tân ac Achub bob blwyddyn a phenderfynu a oes gan bob Awdurdod drefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau.[95] Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad gwella blynyddol mewn perthynas â'r archwiliadau hyn a gall gynnal arolygiadau arbennig o dan amgylchiadau penodol.

**84.** Mae disgwyl i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar adolygiad ehangach o drefn lywodraethu'r tri Awdurdod Tân ac Achub, gan gynnwys eu gallu i wneud penderfyniadau effeithiol ac ansawdd y broses o wneud penderfyniadau yn haf 2024.[96]

**85.** Disgrifiodd Adrian Crompton y drefn archwilio bresennol fel un drwsgl a dywedodd ei bod yn or-ragnodol mewn mannau ond nad oedd yn ymddangos bod unrhyw hepgoriadau amlwg yn yr hyn y gall ei wneud. Dywedodd hefyd ei fod eisiau mwy o fanylion am yr hyn a oedd gan Lywodraeth Cymru mewn golwg ar gyfer cryfhau'r drefn archwilio a'i fod yn gobeithio na fyddai'n cael ei ddefnyddio i ddwyn ymaith y disgresiwn ar gyfer caniatáu i archwilydd cyffredinol annibynnol ffocysu adnoddau Archwilio Cymru.[97]

[95] Legislation.gov, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
[96] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR05 – Archwilio Cymru
[97] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 72, 11 Mawrth 2024

**86.** Aeth Archwilio Cymru ati i dynnu sylw at y ffaith bod rhannau eraill o Fesur Llywodraeth Leol 2009 wedi'u diddymu ar gyfer llywodraeth leol ond eu bod yn dal i fodoli ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub. Holwyd a yw darpariaethau Mesur 2009 yn dal i ychwanegu gwerth ac yn cefnogi rhesymoli arfaethedig (y Mesur).[98]

## Ein barn ni

### Ar rôl Archwilio Cymru

Nodwn fod y drefn archwilio y mae Archwilio Cymru yn ei gweithredu, mewn perthynas ag Awdurdodau Tân ac Achub, yn fwy cyfyngedig nag ydyw i lawer o gyrff cyhoeddus eraill. Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb mewn deall i ba raddau y gallai Llywodraeth Cymru ddisgwyl yn rhesymol y gallai methiannau diwylliannol o'r math a ganfuwyd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fod wedi cael eu canfod gan ddiffiniad ehangach o archwilio. Mae'r ateb hwn yn bwysig wrth ystyried opsiynau ar gyfer unrhyw ddiwygio posibl yn y dyfodol.

**Casgliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ynghylch a fyddai diffiniad ehangach o archwilio yn canfod methiannau diwylliannol o'r math a ganfuwyd r yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac, os felly, sut y byddai'n gwneud hynny, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn.

**Casgliad 7.** Rydym yn croesawu'r adolygiad o'r trefniadau llywodraethu sy'n cael ei gynnal gan Archwilio Cymru ac edrychwn ymlaen at ystyried ei ganfyddiadau.

---

[98] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraffau 51 a 69, 11 Mawrth 2024

# 4. Opsiynau ar gyfer diwygio yn y dyfodol

**87.** Er mai llywodraethu oedd ffocws yr ymchwiliad hwn, cawsom lai o dystiolaeth ar yr opsiynau neu'r dewisiadau mewn perthynas â diwygio'r trefniadau hyn nag yr oeddem yn ei ddisgwyl.

## Diwygio o fewn y trefniadau presennol

**88.** O fewn y trefniadau llywodraethu presennol, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai'n werth archwilio rhaniad cliriach rhwng awdurdod gweithredol a chyfrifoldeb a bwrdd, yn yr ystyr fwy clasurol. Byddai'r Bwrdd wedyn yn goruchwylio gwaith y Gwasanaethau Tân ac Achub, gan gynnwys eu dwyn i gyfrif ac yn cymryd cyd-berchnogaeth dros benderfyniadau strategol mawr fel pennu'r gyllideb.[99]

**89.** Mae CLlLC yn nodi ei hegwyddorion allweddol ar gyfer unrhyw ddiwygio, gan gynnwys y dylai Awdurdodau Tân ac Achub aros yn y teulu llywodraeth leol ac ar yr un ffiniau; y dylai awdurdodau lleol barhau i enwebu aelodau o'r Awdurdodau Tân ac Achub.[100]

**90.** Galwodd Dawn Docx am fwy o ymchwil academaidd i fanteision gwahanol fodelau llywodraethu: gan fod rhai modelau yn ddi-os yn arwain at benderfyniadau'n cael eu gwneud yn gynt neu graffu dyfnach, neu reoli perfformiad yn fwy effeithiol, ac yn ei barn hi, cyn i ni ddilyn trywydd penodol, bod angen i ni allu edrych ar y modelau gwahanol hyn a gweld eu manteision drosom ni ein hunain.[101]

## Lleihau maint Awdurdodau Tân ac Achub

**91.** Cytunodd llawer o randdeiliaid, gan gynnwys yr FRSA, yr Archwilydd Cyffredinol ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, fod maint yr Awdurdodau Tân ac Achub yn ffactor a allai gael effaith negyddol ar berfformiad yr awdurdod a'i swyddogaethau craffu.

---

[99] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 76, 11 Mawrth 2024
[100] Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub, 22 Ebrill 2024
[101] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 288, 11 Mawrth 2024

**92.** Er y gallai awdurdodau mwy ganiatáu ar gyfer mwy o amrywiaeth barn, dadl yr FRSA oedd fod y cyfarfodydd wedi mynd yn anhylaw ac yn anghydlynus yn aml a bod atebolrwydd yn cael ei lastwreiddio a'i golli oherwydd y niferoedd uchel.[102]

**93.** Amlinellodd yr Archwilydd Cyffredinol a Dylan Rees o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru sut y gallai'r maint fod yn gwneud pethau'n fwy anhylaw, gyda goblygiadau o ran atebolrwydd a llywodraethu.[103]

**94.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno, gan ddweud wrthym fod gan Awdurdodau Lleol rhwng 24 a 28 aelod mewn trefniant sy'n unigryw i Gymru ac, o'i gymharu:

> *"West Midlands FRA serves a population which is slightly less than that of the whole of Wales, yet has a membership of 15 councillors from its seven constituent councils and three co-optees."*[104]

## Gwella capasiti ac arbenigedd

**95.** Roedd yr FRSA, yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru hefyd yn cydnabod manteision penodi aelodau allanol i Awdurdodau Tân ac Achub i gyflwyno mwy o arbenigedd ac arbenigaethau. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd y gellid defnyddio aelodau allanol i gyflwyno ffocws ar flaenoriaethau cenedlaethol ,yn ogystal ag atebolrwydd lleol.[105]

**96.** Yn ogystal ag arbenigedd allanol, pwysleisiodd yr FRSA a NFCC anghenion hyfforddi a datblygu aelodau presennol yr Awdurdodau Tân ac Achub fel eu bod yn deall eu rolau yn well.

---

[102] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR07- Y Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub
[103] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraffau 20 a 229, 11 Mawrth 2024
[104] Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub, 22 Ebrill 2024
[105] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 21, 11 Mawrth 2024

**97.** Tynnodd yr FRSA sylw at y ffaith bod y trefniadau presennol yn caniatáu sefyllfaoedd lle mae'r Prif Swyddog Tân yn gweithredu fel cynghorydd proffesiynol i'r awdurdod a bod atebolrwydd yn cael ei lastwreiddio'n ddifrifol o ganlyniad. Ychwanegodd yr FRSA fod perthynas rhy agos yn aml rhwng y cadeirydd a'r uwch dîm arwain ac na ddylent fod yn ffrindiau ond, yn hytrach, y dylent gadw pellter cwrtais ond hanfodol.[106]

**98.** Dywedodd NFCC fod hyfforddiant a datblygiad i helpu aelodau etholedig i ddeall eu rôl a'r hyn a ddisgwylir ganddynt yn arbennig o bwysig.[107]

**99.** Dywedodd CLILC fod hyfforddiant a datblygiad ar gyfer aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu darparu gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru drwy eu Strategaethau Datblygu Aelodau a'u Rhaglenni Hyfforddiant cynhwysfawr a'u bod yn ymdrin â meysydd fel moeseg a chod ymddygiad, hyfforddiant sefydlu ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, cynllunio cyllidebau, hyfforddiant craffu, cyfathrebu a'r cyfryngau cymdeithasol.[108]

## Ein barn ni

### Ar ddiwygio'r trefniadau llywodraethu presennol

Roeddem yn siomedig i beidio â chael mwy o dystiolaeth ar y cwestiwn o sut y gallai llywodraethu da yn y sector edrych. Ymhellach, rydym yn poeni ei fod yn arwydd o hunanfodlonrwydd a diffyg hunanholi ar ran llawer o fewn y sector.

Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub ar eu ffurf bresennol yn anacroniaeth ac mae angen newid mewn ymateb i'r Adolygiad o Ddiwylliant ac i sicrhau eu bod yn fwy cydnaws â chyrff cyhoeddus eraill. Yn y tymor byr, dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gwella capasiti aelodau Awdurdodau Tân ac Achub i ddwyn y Gwasanaethau Tân ac Achub i gyfrif drwy newidiadau i gyfansoddiad yr Awdurdodau a'r cymorth a dderbyniant.

O ran gwybodaeth ac arbenigedd aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub, nodwn mai'n anaml, os o gwbl, y defnyddiwyd yr opsiwn i gyfethol aelodau. Rydym yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i'r Awdurdodau Tân ac Achub gyfethol aelodau sydd ag arbenigedd allanol ym meysydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cyn gynted â phosibl. Dylai hyn ddigwydd law yn llaw â mesurau i wella ansawdd

[106] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR07- Y Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub
[107] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR08- Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân
[108] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR10- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

hyfforddiant, datblygiad a sefydlu aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub. Yn benodol, nodwn bryderon nad oes gan yr Awdurdodau Tân ac Achub ddealltwriaeth o'u rôl ac o'r herwydd byddem yn croesawu adolygiad cyflym o'r hyfforddiant a'r datblygiad a ddarperir i aelodau'r Awdurdodau hyn. Yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad cyflym, dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud modiwlau sy'n ymwneud â swyddogaethau craffu a materion diwylliannol yn orfodol i holl aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru wella capasiti aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub i ddwyn Gwasanaethau Tân ac Achub i gyfrif drwy:

- leihau maint cyffredinol aelodaeth yr Awdurdodau;
- ystyried cynigion i dynnu aelodau'r Awdurdodau o gabinetau awdurdodau lleol;
- edrych ar gynigion i wahanu'n ffurfiol swyddogaethau gweithredol yr awdurdod oddi wrth swyddogaethau craffu'r Cadeirydd a'r Bwrdd;
- annog cyfethol aelodau sydd â gwybodaeth ac arbenigedd allanol ym meysydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i bob Awdurdod; a
- darparu cyngor a hyfforddiant penodol i aelodau'r Awdurdodau ar oblygiadau Adolygiad Morris yn y tymor byr a chynnal adolygiad cyflym o'r hyfforddiant a'r trefniadau sefydlu a ddarperir i aelodau'r Awdurdodau gyda'r bwriad o wella'r ddarpariaeth a gwneud hyfforddiant yn y dyfodol yn orfodol.

Dylid darparu hyfforddiant a chymorth parhaus ar oblygiadau Adolygiad Morris i Aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub ar unwaith ac erbyn mis Awst 2024. Er gwaethaf canlyniadau'r adolygiadau o ddiwylliant Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru, dylid gweithredu pob agwedd arall ar yr argymhelliad o fewn 18 mis a heb fod yn hwyrach na diwedd 2025.

## Ehangu rôl y gwasanaethau tân ac achub

**100.** Ers 2001, bu gostyngiad sylweddol yn yr holl gategorïau o danau yng Nghymru a'r DU. Mae ffigurau'n dangos tuedd ar i lawr o bron i 70 y cant ers 2001-02. Dros y deng mlynedd diwethaf, mae'r niferoedd wedi bod yn gymharol sefydlog, gan aros ar lefel o rhwng 10,000 a 13,000 y flwyddyn.[109] Mae'r gostyngiad cyffredinol wedi'i briodoli i gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys llwyddiant gwaith atal gan wasanaethau tân ac achub, llai o ysmygu dan do a safonau diogelwch cynnyrch gwell.

**101.** Mae'r gostyngiad sylweddol mewn digwyddiadau wedi arwain at drafodaeth ynghylch rôl personél y gwasanaethau tân ac achub yn y dyfodol. Heriwyd ehangder y trafodaethau hyn, a chlywsom bryderon, er enghraifft, gan gyn-Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, y Cynghorydd Steven Bradwick, fod Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r adolygiad i wneud pethau eraill fel newid patrymau gwaith y diffoddwyr tân.[110] Fodd bynnag, mae'r cwestiwn ynghylch a ellid ehangu rolau diffoddwyr tân i gefnogi gweithgareddau eraill ac ymatebion brys wedi bod dan ystyriaeth ers tro byd.

**102.** Yn 2021, canfu adolygiad thematig y CFRAI i ehangu rôl diffoddwyr tân fod "capasiti i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ddarparu cefnogaeth i'r GIG gan ddefnyddio ei adnoddau presennol."[111] Yn benodol, canfu "yn y system sifftiau amser cyflawn, mae'r capasiti hwnnw yn bodoli'n bennaf yn ystod y sifft nos, ac yn benodol, y cyfnod rhwng 2200 – 0700" pan nad oes llawer o weithgarwch wedi'i raglennu, os o gwbl a phan fydd nifer y digwyddiadau ar eu hisaf.[112] Ym marn y CFRAI, mae'r capasiti dros ben hwn yn dystiolaeth o'r angen i ganolbwyntio mwy o amser ar hyfforddiant, ymarfer a lleihau risg, "ni waeth beth a gytunir o ran ehangu'r rôl."[113]

[109] StatsCymru, Bwletin Ystadegol Ystadegau achosion tân ac achub 2022-23, 26 Hydref 2023
[110] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 220, 11 Mawrth 2024
[111] Llywodraeth Cymru, Ehangu Rôl Diffoddwyr Tân yng Nghymru, 2021
[112] Mae sifftiau amser cyflawn wedi'u cyfansoddi fel a ganlyn: 2 x ddiwrnod 9 awr, ac yna 2 x noswaith 15 awr, ac yna 4 diwrnod i ffwrdd fel y cyfeirir atynt yn Ehangu Rôl Diffoddwyr Tân yng Nghymru, 2021
[113] Llywodraeth Cymru, Ehangu Rôl Diffoddwyr Tân yng Nghymru, 2021

**103.** Dywedodd WAST wrthym fod y ddau wasanaeth yn rhyngweithio ar lefel weithredu yn ddyddiol, a thynnodd sylw at yr ymateb i'r pandemig fel enghraifft o gysylltiadau gwaith agos.[114]

**104.** Dywedodd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mai prin oedd y cynnydd a wnaed ar lefel genedlaethol neu ranbarthol ac mai dyma'r unig Wasanaeth Tân ac Achub sy'n gweithredu'n lleol.[115] Cyfeiriodd Roger Thomas at sawl enghraifft o gydweithio agos, gan gynnwys delio â 4,000 o alwadau y flwyddyn i dynnu'r pwysau oddi ar wasanaethau ambiwlans Cymru.[116]

**105.** Dywedodd yr FRSA ei fod bob amser wedi bod o blaid:

> *"[…] managed correctly by broadening the role, you can actually improve recruitment and retention and have a wider reliance on on-call firefighters that is beneficial to the community."*

**106.** Fodd bynnag, dadleuodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei bod hi'n anodd iawn i Awdurdodau Tân ac Achub ehangu'r rôl yn unochrog heb roi'r mecanweithiau ariannu a llywodraethu angenrheidiol ar waith.[117]

## Ein barn ni

### Ar ddiwygio'r gwasanaeth tân ac achub yn y dyfodol

Mae'r gostyngiad o bron i 70% yn nigwyddedd tân yn gyffredinol ers 2001-02 yn gyflawniad sylweddol, ac mae'n arwydd o fanteision y dull ataliol. Mae'r gostyngiad hwn yn gyfle i ofyn rhai cwestiynau sylfaenol ynghylch rôl a diben gwasanaethau tân ac achub yn yr hirdymor. Credwn y dylai'r ffurf hwnnw fod yn seiliedig ar swyddogaeth a nodwn fod y dull tameidiog hyd yma wedi arwain at gynnydd tu hwnt o araf yn unig. At hynny, ni ellir ystyried mater swyddogaeth ar ei ben ei hun o ystyried cydgysylltiad gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig y gwasanaethau brys. Rydym yn derbyn y bydd yna alwadau sydd â mwy o frys arnynt bob amser a bod diwygio unrhyw wasanaeth yn dod gyda chostau cyfle. Fodd bynnag, mewn cyfnod pan fo adnoddau'n prinhau, ni all Llywodraeth Cymru

---

[114] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR06- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
[115] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR02- Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
[116] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 233, 11 Mawrth 2024
[117] Tystiolaeth ysgrifenedig, FAR04- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

osgoi archwilio mesurau mwy radical i ddiwygio strwythur a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

O'r cynigion radical a grybwyllwyd, roedd uno'r Awdurdodau Tân ac Achub â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn un a ddiystyriwyd gennym yn syth gan nad yw plismona wedi'i ddatganoli yng Nghymru. Ni chawsom ddigon o dystiolaeth ychwaith i gefnogi uno'r gwasanaethau tân ac achub â gwasanaethau Ambiwlans Cymru, er y rhagwelir y bydd mwy o gydweithio rhwng y ddau.

O ran yr opsiynau ar gyfer diwygio, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar gwestiynau am rôl sylfaenol y gwasanaeth tân ymhen 10, 15 ac 20 mlynedd a sut y gellid darparu'r gwasanaethau hynny. Bydd sicrhau mandad ar gyfer unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol yn allweddol. Felly, er mwyn sicrhau y gellir trafod cynigion fel rhan o'r broses ddemocrataidd, credwn y byddai'n fuddiol pe gellid cwblhau'r gwaith archwilio erbyn diwedd 2025 fel y gellir eu hystyried cyn etholiadau nesaf y Senedd a ddisgwylir yn 2026.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i archwilio opsiynau ar gyfer diwygio mwy radical i strwythur a darpariaeth gwasanaethau tân ac achub yn yr hirdymor. Dylai hyn gynnwys:

- Cychwyn ar y broses o archwilio beth ddylai swyddogaethau craidd gwasanaethau tân ac achub yn y dyfodol fod yn 2035 neu yn 2040;
- Archwilio manteision ac anfanteision creu un gwasanaeth tân ac achub i Gymru gyfan; a
- Datblygu safbwynt polisi tymor hwy (yn ddelfrydol ar ffurf Papur Gwyn) mewn erbyn diwedd 2025 fel y gellir eu hystyried cyn etholiadau nesaf y Senedd a ddisgwylir yn 2026.

# Atodiad 1: Sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 26 Chwefror 2024 | **Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Liz Lalley, Cyfarwyddwr Risg, Cadernid a Diogelwch Cymunedol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Dan Stephens, Prif Gynghorydd Tân ac Achub ac Arolygydd Cymru**<br>Llywodraeth Cymru |
| 4 Mawrth 2024 | **Matt Wrack, Ysgrifennydd Cyffredinol**<br>Undeb y Brigadau Tân<br>**Cerith Griffiths, Aelod o'r Cyngor Gweithredol**<br>Undeb y Brigadau Tân<br>**Peter Crews, Ysgrifennydd Cangen**<br>(yn cwmpasu Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru)<br>UNSAIN<br>**Tristan Ashby, Prif Swyddog Gweithredol**<br>Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub<br>**Mark Hardingham, Cadeirydd**<br>Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân<br>Roedd sesiwn friffio breifat hefyd gyda Chomisiynwyr Tân De Cymru:<br>**Vij Randeniya,**<br>Cyn-Brif Swyddog Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr<br>**Y Farwnes Wilcox o Gasnewydd,**<br>Cyn-Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd<br>**Kirsty Williams,**<br>Cyn-Aelod o'r Senedd a'r Gweinidog Addysg |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 11 Mawrth 2024 | **Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru**<br>Archwilio Cymru<br>**Gary Emery, Cyfarwyddwr Archwilio**<br>Archwilio Cymru<br>**Martin Peters, Pennaeth y Gyfraith a Moeseg**<br>Archwilio Cymru<br>**Y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd**<br>Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>**Dawn Docx, Prif Swyddog Tân**<br>Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>**Y Cynghorydd Gwynfor Thomas, Cadeirydd**<br>Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>**Roger Thomas, Prif Swyddog Tân**<br>GwasanaethTân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>**Y Cynghorydd Steven Bradwick, cyn-Gadeirydd**<br>Awdurdod Tân ac Achub De Cymru<br>**Dewi Rose, Dirprwy Brif Swyddog Tân Dros Dro**<br>Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| 18 Mawrth 2024 | **Jason Killens, Prif Swyddog Gweithredol**<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru<br>**Angela Lewis, Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant**<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| 22 Ebrill 2024 | **Julie James AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Liz Lalley, Cyfarwyddwr Risg, Cadernid a Diogelwch Cymunedol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Dan Stephens, Prif Gynghorydd Tân ac Achub ac Arolygydd Cymru**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| FAR01 | Cymdeithas y Swyddogion Tân |
| FAR02 | Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| FAR03 | Y Bwrdd Safonau Tân |
| FAR04 | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| FAR05 | Archwilio Cymru |
| FAR06 | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| FAR07 | Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub |
| FAR08 | Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân |
| FAR09 | Merched yn y Gwasanaeth Tân |
| FAR10 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Gwybodaeth ychwanegol gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Mai 2024 |
| Gwybodaeth ychwanegol gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Mai 2024 |
| Gwybodaeth ychwanegol gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru | Mai 2024 |